**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**IS-BWYLLGOR (CYLLID) Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 3 CHWEFROR 2021**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: C.Clement-Williams a/ac D.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

C.Griffiths, H.Jenkins, H.Jones, H.Lewis a/ac J.Woodman-Ralph

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd C Clement-Williams yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

   Ni dderbyniwyd cyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

4. **CEISIADAU I'R GRONFA GRANTIAU AMRYWIOL**

   **Penderfyniad:**

   Bod Llyfrgell Gymunedol Llansawel yn cael £3,000 y flwyddyn mewn perthynas â'r codiad rhent o £3,190 y flwyddyn tuag at gost rhent Llyfrgell Gymunedol Llansawel yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rhent o 1 Ebrill 2021.

**<u>Rheswm dros y penderfyniad:</u>**

Er mwyn galluogi'r cyngor i ystyried swm y cymorth ariannol mewn perthynas â'r cais am grant a dderbyniwyd.

**<u>Rhoi Penderfyniadau ar Waith:</u>**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 5. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 6. CRONFA YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH MORGANNWG

Nododd yr aelodau fod nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn parhau i leihau oherwydd argaeledd grantiau eraill a oedd yn effeithio ar feini prawf cymhwysedd y grant hwn.

**<u>Penderfynwyd:</u>**

1. Cymeradwyo ceisiadau i Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Morgannwg ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/2021 fel y manylir yn Atodiad B ac C yr adroddiad a gylchredwyd.

2. Dyrannu hyd at uchafswm o £3,760.50 ar gyfer 3 myfyriwr amser llawn fel y manylir yn Atodiad B yr adroddiad a gylchredwyd.

3. Dyrannu hyd at uchafswm o £1,880.25 ar gyfer 2 fyfyriwr rhan-amser fel y manylir yn Atodiad C yr adroddiad a gylchredwyd.

4. Cymeradwyo'r taliadau i'r ymgeiswyr cymeradwy hynny sy'n derbyn cefnogaeth barhaus gan Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Morgannwg.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Darparu cefnogaeth ariannol addas i fyfyrwyr a fyddai'n dioddef o galedi fel arall.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 7. YMDDIRIEDOLAETH HAROLD A JOYCE CHARLES

Fel a nodwyd yn flaenorol, nododd yr Aelodau'r effaith yr oedd argaeledd grantiau eraill yn ei chael ar nifer y ceisiadau a dderbynnir a oedd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y grant hwn.

**Penderfynwyd:**

1. Cymeradwyo'r ceisiadau cymwys a dderbynnir ar neu cyn y dyddiad cau i Gronfa Harold a Joyce Charles ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/2021 fel y manylir yn Atodiad B yr adroddiad a gylchredwyd.

2. Y dyraniad arian fydd £3,760.50 ar gyfer 3 myfyriwr amser llawn fel y manylir yn Atodiad B yr adroddiad a gylchredwyd.

3. Cymeradwyo taliadau i'r ymgeiswyr cymeradwy hynny sy'n derbyn cefnogaeth barhaus gan Gronfa Harold a Joyce Charles.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Darparu cefnogaeth ariannol addas i fyfyrwyr a fyddai'n dioddef o galedi fel arall.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 8. DILEU ARDRETHI BUSNES

**Penderfyniad:**

Rhoddir y gymeradwyaeth honno i ddileu'r symiau fel y manylir arnynt yn Atodiad 1 yr adroddiad a gylchredwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Ni ellir adfer y cyfrifon ardrethi busnes.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**